

Llwybr Castell Abertawe i'r Teulu

Swansea Castle Family Trail



**Dewch i fod yn dditectif hanes ar y llwybr
byr yma o amgylch Castell Abertawe a
chanfod pwy adeiladodd y lle a pham.**



*Cychwynnwch yn y man palmantog o flaen
y castell.*

Pwy sydd eisiau ymosod ar y castell?

Efallai eich bod yn teimlo'n ddiogel yma yn y cwrt, wedi eich amddiffyn gan furiau cadarn y castell, ond roedd hwn yn gastell Normanaidd ac roedd tywysogion Cymreig Deheubarth (oedd yn rheoli Gorllewin Cymru) eisiau ymosod arno. Pan gipiodd Gwilym Goncwerwr goron Lloegr yn 1066, doedd ganddo ddim yr hawl i reoli Cymru. Gwrthryfelodd y tywysogion Cymreig am 200 mlynedd yn erbyn y Normaniaid oedd yn goresgyn y wlad, gan ymosod ar y castell hwn a chestyll eraill a adeiladwyd ar ffiniau eu tiriogaeth.

Gallwch weld y marchog yma'n ymryson ar deilsen lawr ganoloesol yn Amgueddfa Abertawe. (Dinas a Sir Abertawe: Casgliadau Amgueddfa Abertawe)



Castell i frolio grym

Wedi i'r Cymry losgi'r castell cyntaf o bren i'r llawr, adeiladwyd ail gastell o gerrig. Mae'r muriau yma'n rhan o'r trydydd castell, y castell newydd, a adeiladwyd gan ddau Arglwydd Normanaidd pwerus a chyfoethog yn niwedd y 13eg ganrif. Er bod William de Breos II a'i fab William de Breos III yn dal i fod angen eu hamddiffyn eu hunain rhag ymosodiadau'r Cymry, roeddent hefyd eisiau dangos eu cyfoeth a'u dylanwad fel Arglwyddi Gŵyr.



Crwydrwch o amgylch y cwrt i weld faint o'r pethau hyn y gallwch eu gweld:

Cerrig o wledydd tramor



Allwch chi ganfod unrhyw gerrig crynion llyfn yn debyg i'r rhain?

Mae'r rhan fwyaf o'r castell wedi'i adeiladu o gerrig gwastad neu hirsgwar. Mae'n debyg bod y cerrig bach crwn yma'n falast llong a gludwyd i Abertawe gan longau masnach. Mae rhai wedi dod o wledydd mor bell i ffwrdd â Llydaw a Llychlyn. Wedi iddynt gael eu gollwng ar lan yr afon islaw'r castell, cawsent eu gwisgo'n llyfn gan y dŵr – dyna ddigonedd o gerrig i adeiladu'r castell.

I'r carchar â chi!

Dewch o hyd i'r tŵr sgwâr lle cawsai pobl eu carcharu. Pam gawsent eu cloi yma?

Dŵr i'r Twr?

Dewch i hyd i siâp cylch yn y pafin. Beth sydd o dan hwn yn eich barn chi?

Nid oedd unrhyw dapiau neu ddŵr yn llifo yn y castell. Roedd yn rhaid ei gario i mewn o ffynnon y castell, a oedd o dan y garreg hon.

Mae'r siapiau cerrig eraill yn y pafin yn dangos lle'r oedd grisiau'n arwain o'r cwrt i fyny i ddrysau ar y llawr cyntaf. Roedd grisiau ar y dde'n arwain i'r neuadd fawr lle croesawodd Arglwydd Gŵyr ei westeion. Roedd y grisiau ar y chwith yn arwain i fyny i ystafell breifat y teulu, a alwyd yn oruwchystafell, lle gallent ymlacio. Mae'n debyg eu bod yn cysgu yma hefyd ac yn mwynhau cysur cael toiled dan do!



Cerddwch o amgylch y tŵr sydd agosaf at y ffordd a, chyn troi i'r chwith i lawr Lôn y Castell, sefwch ac edrychwch yn ôl ar y castell.

Dw i'n dy weld ti!

Allwch chi weld dau agoriad bach crwn ger pen y tŵr?

Oes rhywun yn pwyntio gwn atoch? Gallai gynwyr yn y tŵr anelu a thanio i lawr atoch drwy'r tyllau yma o'r enw porthdyllau gwn. Fyddech chi ddim yn gallu tanio yn ôl atyn nhw fel y gwelwch. Rhoddwyd y tyllau yma yn y castell yn ystod Rhyfeloedd y Rhosynnau, rhwng 1440 a 1485.





Cerddwch i lawr Lôn y Castell.

Dw i'n dal i dy wyllo di!


Allwch chi weld yr holtau cul, o'r enw agennau saethu, ym muriau'r castell?

Yn ogystal â gadael goleuni i mewn i'r castell, roedd y rhain yn gadael i saethwyr anelu eu saethau at bobl fel chi, i lawr yma. Gallai saethwyr bwa hir saethu 12 saeth y munud, oedd yn teithio 100 milltir yr awr ac yn taro targedau 200m i ffwrdd. Pan oedd Owain Glyndŵr, arweinydd y Cymry, yn bygwth ymosod yn 1402, roedd 18 o saethwyr a 3 milwr arfog wedi eu gosod o fewn y castell er mwyn ei amddiffyn.

Y goron ar ei ben

Edrychwch ar y bwâu ar ben y castell. Ar un cyfnod gallech gerdded ar hyd y fan yma, gan fwynhau'r olygfa ar draws y bae.

Yn yr 1330au, ychwanegodd yr Arglwydd John Mowbray y paraped yma gyda'r bwâu ynddo, tua 50 mlynedd ar ôl i'r castell newydd gael ei adeiladu. Am fod tywysogion Cymru wedi cael eu trechu erbyn hyn, roedd yr Arglwydd hwn ar Benrhyn Gŵyr yn rhoi llai o sylw i ymosodiadau a mwy i gopio'r ffasiynau gosgeiddig diweddaraf o Ewrop.



Hawlfraint y Goron (2014) Croeso Cymru



Croeswch y ffordd a throwch eich cefn ar y Tŵr BT, gan wynebu'r castell.

Ble'r aeth yr afon?

Byddai'n rhaid i chi wisgo welingtons i gerdded ar hyd y fan yma 200 o flynyddoedd yn ôl. Mae'r darlun isod yn dangos fel yr oedd yr Afon Tawe'n arfer llifo ychydig yn is na'r castell. Rydych yn sefyll yn y fan lle'r oedd llongau a chychod wedi eu hangori ar hyd glan yr afon. Heddiw, enw'r stryd yma yw'r 'Strand', sef hen air Saesneg am 'glan'. Yn y fan yma y byddai pobl wedi casglu'r cerrig llyfn hynny a ddefnyddiwyd i adeiladu rhannau o'r castell. Yn 1845, newidiwyd llwybr yr afon i greu llwybr haws i'r môr ar hyd y New Cut, ac yn 1852 daeth hen lwybr yr afon yn ddoc arnofiol.



Manylion o'r print o 1745 gan y brodyr Buck. (Casgliad preifat)

6

Cerddwch i'r dde o dan y bont droed.

Y llethr glaswelltog ar eich ochr chwith yw'r fan lle adeiladwyd y castell gwreiddiol. Yn y llun fe welwch y mwnt gyda choed ar ei ben. Gallwch weld mor anodd fyddai hi i redeg i fyny'r llethr i ymosod ar y castell tra byddai saethwyr yn saethu saethau atoch!

7

*Trowch i'r chwith wrth y gyffordd.
Cerddwch i fyny am bellter bychan iawn
cyn troi i'r chwith yn ôl i gwrth y castell,
gan basio maes parcio ar y chwith.*



Gwarchae!

Mae ceir yn parcio erbyn hyn lle adeiladwyd y castell cyntaf yn 1106.

Adeiladodd Arglwydd Normanaidd cyntaf Gŵyr, Henry de Beaumont, gastell o bren yma er mwyn amddiffyn y ffin Normanaidd rhag ymosodiadau'r tywysogion Cymreig.

Yn 1192, rhoddodd Tywysog Deheubarth (yr Arglwydd Rhys) warchae ar y castell am ddeg wythnos a llwgu pobl yn y castell i farwolaeth. Achubwyd y castell yn y diwedd. Yna yn 1217 daeth ei fab ffyrnicach fyth, Rhys Gryg, i ddinistrio'r castell a thafu'r Normaniaid allan o Benrhyn Gŵyr. Wedi iddo gael ei ddistrywio a'i losgi lawer gwaith, ailadeiladwyd y castell o gerrig.



*Golwg ar Abertawe, ar sail y print o 1745 gan y brodyr Buck.
(Dinas a Sir Abertawe: Oriol Gelf Glynn Vivian)*

Lawrlwythwch ffilm fer am hanes y castell ar:
<http://www.abertawe.gov.uk/castellabertawe>

Dilynwch hanes Abertawe'r Oesoedd Canol ar:
<http://www.medievalswansea.ac.uk/cy/>

Gyda diolch i Amgueddfa Abertawe, Archifau Gorllewin Morgannwg, y prosiect 'City Witness', cangen Abertawe o'r Gymdeithas Hanesyddol, Swansea Your Story a Pastoral Audiobooks.
Cynhyrchwyd gan Ddinas a Sir Abertawe yn 2014.

